# Ymateb Sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: persbectif a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth – Cyngor Gwynedd

**Dyddiad cwblhau:** Rhagfyr 2023

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad Cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Gwybodaeth am bersbectif y defnyddiwr gwasanaeth**<br>Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i alluogi uwch arweinwyr i ddeall persbectif y defnyddiwr gwasanaeth trwy:<br>• rannu ei wybodaeth perfformiad am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth gydag amrywiaeth ehangach o uwch arweinwyr i sicrhau bod ei werth cymaint â phosibl o ystyried themâu trawsbynciol ei amcanion llesiant; | Gwaith eisoes yn mynd rhagddo yn deillio o'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Craffu (Cyhoeddwyd Hydref 2023) er mwyn rhannu gwybodaeth am berfformiad yn ehangach gan gynnwys aelodau'r Pwyllgorau Craffu. | **I'w gadarnhau** | **Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |
| | • sicrhau ei hun bod yr wybodaeth am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth yn deillio o'r amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. | Rydym eisoes yn edrych i wella'r wybodaeth sydd gennym trwy gynyddu'r amrywiaeth o unigolion hefo nodweddion gwarchodedig neu grwpiau sy'n eu cynrychioli o fewn ein Panel Trigolion. | **Parhaus** | **Ymgynghorydd Cydraddoldeb** |
| | | Grŵp ymgysylltu (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Adran) wedi ei sefydlu. Bydd gwaith hefyd yn digwydd trwy'r grŵp i godi ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr o'r angen i gasglu barn unigolion hefo nodweddion gwarchodedig. | **Parhaus** | **Arweinydd Tîm Gwefan** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | **Gwybodaeth am ganlyniadau**<br>Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau a fwriedir. | Cerrig milltir ar gyfer y prosiectau blaenoriaeth Cynllun y Cyngor wedi eu datblygu ar gyfer 23/24 wedi i'r gwaith maes gael ei gynnal. Y wybodaeth hon wedi ei rannu hefo Aelodau Cabinet, ar Aelodau Craffu sy'n mynychu cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad a Swyddogion perthnasol.<br><br>Bydd cerrig milltir ar gyfer gweddill cyfnod Cynllun y Cyngor yn cael eu datblygu dros yr wythnosau nesaf ac yn cael eu rhannu hefo'r Aelodau a Swyddogion perthnasol.<br><br>Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o gymharu mesurau a data rheolaethol hefo cymheiriaid yn achlysurol. Byddai hyn yn ein galluogi i adnabod meysydd lle mae anghysondebau o ran perfformiad. | **Cwblhawyd**<br><br>**Ebrill 2024**<br><br>**I'w gadarnhau** | **Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor**<br><br>**Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor**<br><br>**Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |
| **A3** | **Trefniadau i wirio ansawdd a chywirdeb data**<br>Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod ganddo drefniadau cadarn i wirio ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth y mae'n ei darparu i uwch arweinwyr am bersbectif defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau. | Rydym yn ffyddiog fod trefniadau presennol i wirio ansawdd a chywirdeb gwybodaeth yn ddigonol ac yn ymddiried yn y gwasanaethau. Ceir cyfle pellach i gwestiynu ac i wirio ansawdd a chywirdeb gwybodaeth o fewn y cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad bob deufis.<br><br>Byddai rhoi unrhyw drefniadau ychwanegol i'r rhai sydd eisoes yn eu lle yn gofyn am gapasiti ychwanegol sydd | **Cwblhawyd** | **Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddim yn ymarferol o ganlyniad i sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor.<br><br>Fel y nodir eisoes uchod mae posibilrwydd y byddwn yn edrych i wirio gwybodaeth yn erbyn cymheiriaid yn achlysurol yn y dyfodol. | | |